

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN YSGOL LLANDDOGED NOS LUN TACHWEDD 29ain 2021

PRESENNOL

Cyng. John Owen (Cadeirydd), Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Dylan Jones, Cyng. Hefin Martin, Cyng. Alun Morris, Delyth Algieri (clerc).

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyngor cymuned i'r cyfarfod sydd yn cael ei gynnal yn neuadd yr ysgol.

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Arwel L. Jones, Cyng. Anwen Jones, Cyng. Eifion Williams, Cyng Austin Roberts

CADARNHAU'R COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 27ain o Fedi, 2021..

MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF

Nododd y clerc fod Mr Simon Richardson, Adran Rheoleiddio Cyngor Sir Conwy yn mynd i gysylltu gyda perchennog yr Hen Chapel Soar, Tan y Bryn, Ffordd Tyrpeg Uchaf, Llanddaged i'w holi beth ydi y sefyllfa diweddariad yr adeilad.

CYNLLUNIO

Trafodwyd y ceisiadau cynllunio isod a phasiwyd aelodau y cyngor fod dim gwrthwynebiad :-

- Cais cyfeirnod 0/48741 Adeiladu adeilad ciwbicl gwartheg delltog a'r holl waith cysylltiedig – Bryn Morfydd Mawr, Ffordd Efail Uchaf Llanddaged a phasiwyd drwy godi dwylo fod dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau yma.
- Cais cyfeirnod 0/48839 Trawsnewid ty allan i ffurfio llety gwyliau – Merllyn Isaf, Ffordd Llyn Syberi, Maenan.

CYNNAL A CHADW

- 1) Angen 'Sweeper' i fyny allt yr Abbey at Yr Hen Ysgol Maenan.
- 2) Twll yn ffordd ar y tro drwg wrth Wigfa Maenan.
- 3) Angen torri coed wrth fynediad i'r A470 (allt yr abbey) er mwyn cerbydau cael gweld yn glir at gyfeiriad Llanrwst i ymuno ar ffordd fawr.
- 4) Angen edrych ar yr arwyddion 'dim yn addas i gerbydau trwm ' wrth Pen y Bryn Bach Llanddaged(arwydd yn hongian) ac yr arwydd sydd yn groesffordd y ffordd i lawr o Gadair Ifan Goch at yr Abbey(arwydd yma ddim i'w weld yn glir).
- 5) Clawdd yn gordyfu i'r ffordd - Troed y Rhiw, Ffordd Trwyn Swch, Llanddaged ac mae hyn yn annodd iawn i drigolion gerdded ar y pafin.
- 6) Coed yn tyfu allan i'r ffordd o dycha Glasfryn, Ffordd Fron Francis, Llanddaged.

UNRHYW FATER ARALL

COEDEN NADOLIG

Pasiwyd i gael Coeden Nadolig i bentref Llanddaged eto eleni. Bydd Cyng John Owen a Cyng Alun Morris yn cysylltu gyda Mr Gareth Jones i wneud trefniadau. Nodwyd fod angen talu am y goeden yn syth i'r cwmni eleni yn hytrach na mynd trwy Mr G Jones. Pasiwyd hefyd i gael trydanwr i archwilio y cwpwrdd trydanol y goeden nadolig – awgrymwyd i'r clerc gysylltu gyda Mr Brymor Jones, Maes Mynan, Llanddaged.

Derbyniwyd cais gan yr ysgol gynradd Llanddaged i gael cymryd rhan yn yr achlysur o roi y goleudau nadolig ymlaen. Pasiwyd i weld y sefyllfa o ran y diogelwch y Covid 19 cyn gwneud y penderfyniad.

LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 21 - NANT, PONT Y CROES, LLANDDOGED

Darllenwyd y Cadeirydd e-bost a dderbyniwyd gan Caroline Turner o'r Adran Tramwy Cyngor Sir Conwy yn rhoi diweddariad ar y llwybr cyhoeddus rhif 21. Pasiwyd i'r clerc gael copi diweddara o fapiau llwybrau cyhoeddus ardal Llanddoged a Maenan.